Postiwyd hwn atoch ar: **********

Annwyl gwsmer

Byddwn yn dechrau gwaith mawr yn fuan a fydd yn effeithio arnoch chi

Beth rydym yn ei wneud

Rydym yn buddsoddi tua £2.5 biliwn i adnewyddu rhannau helaeth o'r system garthffosiaeth yn Llangadfan. Un o elfennau allweddol y gwaith yw gosod carthffosydd newydd ym Mharc Carafanau Riverbend yn lle'r orsaf bwmpio bresennol sydd wedi dod i ben ei hoes ymarferol. Trwy osod carthffosydd newydd, ni fydd angen gorsaf bwmpio yn y parc mwyach a bydd hyn yn gwella ansawdd y gwasanaeth a gyflenwn i chi.

Pam rydym yn gwneud y gwaith hwn

Mae'r system garthffosiaeth yn gwasanaethu'r gymuned ers blynyddoedd lawer ond mae llefydd yn y system y mae angen eu gwella. Bydd y cynllun hwn yn helpu i wella hen broblemau o ran cynnal a chadw a gorlifiad.

Bwriadwn ddechrau ar y gwaith ar 15 Tachwedd 2010 a'i gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2011

Sut y byddwn yn achosi cyn lleied o aflonyddwch ag y gallwn

• Bwriadwn gwblhau'r elfen hon yn y prosiect erbyn diwedd Chwefror 2011 ond byddwn yn ceisio gorffen cyn y dyddiad hwn.
• Byddwn yn cydweithio'n agos â pherchnogion y parc i sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer mynediad.
• Cedwir mynediad i flaen y safleoedd/dreifiau lle bynnag y bo modd.

Â phwy y gallaf gysylltu ynghylch y gwaith hwn?

Bydd ein contractwyr, Enterprise, yn cwblhau'r gwaith ar ein rhan a gallwch gysylltu â nhw ynghylch y gwaith ar y rhif **0800 521 660**. Neu gallwch gysylltu â ni yn uniongyrchol yn ein Canolfan Gwasanaeth Gweithredoedd Cwsmer ar y rhif **0800 783 4444**. Bydd cynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmer ar y safle, a fydd yn gwisgo rhwymyn braich brith er mwyn ei chi ei adnabod ac a fydd yn gwneud popeth yn ei allu i'ch helpu.

Yn gywir iawn,
Fraser Pithie
Uwch Reolwr Gweithredoedd

Diolch

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen hwn. Hoffem ddiolch i chi hefyd ymlaen llaw am gydymddŵyn wrth i ni wneud y gwaith hwn i adnewyddu ein pibellau dŵr.

Sut rydym yn gwneud gwahaniaeth

- Bwriadwn adnewyddu 204km o garthffosydd rhwng 2010 a 2015.
- Ar gyfartaledd rydym yn clirio 80 rhwystr yn ein prif garthffosydd bob diwrnod gwaith.
- Rydym yn buddsoddi £2.5 biliwn rhwng 2010 a 2015, ond er gwaetha hynny ni sy'n codi'r taliadau dŵr a charthffosiaeth cyfun isaf yn y wlad.

Sut y gallwch chi wneud gwahaniaeth

- **Dim lawr y sinc….dim un o'r rhain!**
- **X** Brasterau **X** Saim **X** Olewau **X** Bwyd
- **Dim lawr y toiled….dim un o'r rhain!**

X Clytiau Parod **X** Ffyn Cotwm **X** Cadachau Sychu Babanod

X Meddyginiaethau **X** Papur Cegin **X** Cadachau Misglwyf

A wyddoch chi……

Fod brasterau, olewau a saim – yn ogystal â gwastraff bwyd ac eitemau tŷ sy'n honni y gellir eu rhoi i lawr y toiled, yn achosi problemau os cânt eu rhoi i lawr y sinc neu'r toiled. Mae hyn yn effeithio arnoch chi, ein cwsmeriaid;

- **Mae draeniau a charthffosydd yn cael eu rhwystro**
- **Mae hyn yn aml yn achosi i garthffosiaeth orlifo i'ch gardd a'ch cartref**
- **Mae hefyd yn denu cnofilod**